NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Asid obeticolig i drin colangitis fustlog cychwynnol

26 Ebrill 2017

## Gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae asid obeticolig (Ocaliva) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer colangitis fustlog cychwynnol mewn oedolion:

- ar ei ben ei hun, os na ellir goddef asid ursodeoxycholic neu
- gydag asid ursodeoxycholic, os nad yw asid ursodeoxycholic ar ei ben ei hun wedi gweithio'n ddigon da.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth gydag asid obeticolig ar ôl 12 wythnos os nad yw'n gweithio'n ddigon da.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Gall gwybodaeth NICE ar wneud penderfyniadau am eich gofal hefyd eich helpu i benderfynu a ydych eisiau'r driniaeth.

#### *Cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 0800 652 7330
- Sefydliad Colangitis Fustlog Cychwynnol, 0131 556 6811
- Liver4Life, 0800 074 3494

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2456-1

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights